# WILLIAMS, GRIFFITH (1587? - 1673), esgob ac awdur

**Enw:** Griffith Williams
**Dyddiad geni:** 1587?
**Dyddiad marw:** 1673
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** esgob ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yn Treflan ger Caernarfon. Addysgwyd ef mewn ysgol yng Nghaernarfon, Coleg Eglwys Crist, Rhydychen, 1604-6 (ymaelododd yno 15 Mehefin 1604, 'yn 16 oed'), Coleg Iesu, Caergrawnt, 1606-8 (B.A. Cantab., 1606; M.A., 1609; B.D., 1616; D.D., 1621). Ordeiniwyd yn offeiriad 30 Mai 1607. Bu'n rheithor Foscott (Bucks), 1608-12, darlithydd yn S. Pedr a S. Paul yn Llundain, a rheithor S. Bennet Sherhog, 1612-6. Y pryd hwn creodd wrthwynebiad iddo'i hunan trwy bregethu yn erbyn y Piwritaniaid. Cafodd ei atal rhag pregethu gan esgob Llundain am iddo gyhoeddi llyfr, *The Resolutions of Pilate*, ond trwy gyfrwng archesgob Caergaint cafodd ei benodi i fywoliaeth Llanllechid yn Sir Gaernarfon. Ef a bregethodd bregeth angladdol Syr Richard Bulkeley yn 1621 ar y testun, Salm cxiv, 5. Yng Ngorffennaf 1644 pregethodd yn angladd Katherine, ferch William Lewis o Landygai, pan oedd yr archesgob John Williams ac esgob Bangor yn bresennol, ac enwir ef fel un o'r galarwyr yn angladd yr archesgob John Williams yn Llandygai yn 1650. Cafodd ei benodi yn rheithor Trefdraeth yn 1626 ac yn ddeon Bangor yn 1634. Yn 1635 cafodd ei wysio o flaen llys yr uchel gomisiwn am esgeuluso ei wraig a bu yn rhaid iddo arwyddo ymrwymiad am £500 y byddai iddo o hynny allan ymddwyn tuag ati fel y dylai g r ymddwyn at ei wraig. Gwnaethpwyd ef yn un o gaplaniaid y brenin yn 1636, ac yn 1641 cafodd esgobaeth Ossory yn Iwerddon. Yn fuan wedi ei gysegru yn esgob torrodd y rhyfel ar y wlad a bu'n rhaid iddo ddianc o Iwerddon, a bu yn aros yn Llanllechid ac yn crwydro o amgylch hyd yr Adferiad. Ymwelodd ag Iwerddon droeon yn ystod yr amser hwn a chafodd ei benodi'n rheithor Rathfarnham yn 1647. Dychwelodd i'w esgobaeth yn 1661 a dywedir mai ef oedd y cyntaf i weddio'n gyhoeddus dros y brenin Siarl II yn Iwerddon. Bu farw 29 Mawrth 1673 a chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol yn Ossory. Gadawodd eiddo yn Llanllechid a Chonwy a Llandygai i'r tlodion. Cyhoeddodd *The Resolutions of Pilate*, 1616; *Seven Goulden Candlesticks*, 1624, *The True Church*, 1629; *The Discovery of Mysteries or the Plots, etc.*, 1643; *A Sermon preached before the House of Commons*, 1644; *Jura Majestatis, Rights of Kings*, 1644; *The Great Anti-Christ Revealed*, 1660; *Seven Treatises*, 1661; *A True Relation of a Law Proceeding betwixt Griffith, Lord Bishop of Ossory and Sir G. Ayskue*, 1663; *Persecution and Oppression of John Bale and Griffith Williams, bishops of Ossory*, 1664; *Several Sermons on Solemn Occasions*, 1665; *Four Treatises*, 1667; *Vindiciae Regum, or the Grand Rebellion, that is a looking glass for Rebels*.

## Awdur

**Griffith Thomas Roberts**

## Ffynonellau


*The Persecution and Oppression ... of John Bale, that was called to be Bishop of Ossory, by the sole election ... of that pious King, Edw. 6. and of Griffith Williams, that was called after the same manner to the same Bishoprick* (London 1664),, 3-13

Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927) (arg. 1927), 'Memoirs,' 75

James Ware, *De praesulibus Hiberniae commentarius* (Dublin 1665), ii, 420-7

T. Richards, *Cymru a'r Uchel Gomisiwn, 1633-1640* (Lerpwl 1930), 83-6, 102-3, 133, 135

Leslie, *Ossory Clergy and Parishes being an account of the Clergy of the Church of Ireland in the diocese of Ossory, from the earliest period ... With a map of the diocese and portraits of some post-disestablishment bishops* (Enniskillen 1933), 17-9, 77, 104, 133, 135

*Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, 1948, 31


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Griffith Williams

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29879898

Wikidata: Q5608928

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu